# Atodlen Penderfyniadau

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

## Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 7 Chwefror 2024**

Gwnaeth yr Aelod Cabinet y penderfyniadau canlynol ar 6 Chwefror 2024. Byddant yn dod i rym ganol dydd ar 14 Chwefror 2024 ac eithrio unrhyw benderfyniad penodol, sy'n destun "galw i mewn" dilys.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen cais 'Galw i Mewn' yw 4.00 pm ar 13 Chwefror 2024.

Gellir dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud â'r broses 'Galw i Mewn' trwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

Nid yw adroddiadau sy'n ymwneud â materion staffio / adroddiadau cyfrinachol yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor fel rhan o'r prosesau ymgynghori / galw i mewn.

---

### Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar 01/24

**Cynnig Ad-drefnu Ysgolion – Cynyddu Capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar**

**Opsiynau yn cael eu hystyried / Rhesymau dros y Penderfyniad**

Daeth yr ymgynghoriad ffurfiol i gasgliad ar y cynnig ad-drefnu ysgolion sy'n cael ei ddatblygu gan y Cyngor "i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o 420 i 525 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024". Lansiwyd y cynnig ym mis Medi 2023, gydag ymgynghoriad ffurfiol rhwng 25 Medi 2023 a 12 Tachwedd 2023.

Cafodd adroddiad ymgynghori, a oedd yn disgrifio'n fanwl y broses ymgynghori a'r adborth a dderbyniwyd, ei baratoi i gyd-fynd â'r adroddiad. Fe'i cyhoeddwyd hefyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a'i rannu gyda rhanddeiliaid. Roedd yr adroddiad penderfyniad hwn yn cyfeirio at y canfyddiadau, ac roedd canlyniad hyn yn argymell bod y Cyngor yn cyhoeddi cynnig statudol. Byddai unrhyw wrthwynebiadau cyfreithiol a gyflwynwyd yn ystod cyfnod y cynnig statudol yn cael eu hystyried wrth wneud y penderfyniad terfynol.

**Penderfyniad**

Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad statudol am gyfnod o 28 diwrnod mewn perthynas â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o 420 i 525 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024.

**Ymgynghoriad**

Pennaeth y Gyfraith a Safonau, Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid a Phennaeth Cyllid.

Ymgynghorwyd â'r holl aelodau a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau. Mae unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb wedi hynny wedi'u nodi yn yr adroddiad.

**Gweithredir gan: Prif Swyddog Addysg**
**Amserlen Weithredu: Ar unwaith**

---

Y CYNGHORYDD D DAVIES, AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

Dyddiad: 24 Chwefror 2024

---